

Rhif 2

'Y GWIR YN ERBYN Y BYD'

HAF 1990



SEREN TAN GWMWL

FFANSIN CYMDEITHAS IOLO MORGANWG - CYMDEITHAS HANES ANNIBYNNOL



19 DE JULIO DE 1936

LOS DESCAMISADOS



¡ SI NO ES POR ESTOS... !

¡ OS NAD ER MWYN RHAIN... !

CYHOEDDAD ANARCHAID I GORFAN AMADIFFYN
MADRID GAN Y GWETHWYR. 19, GORFFENNAF 1936.

GOLYGYDdol

"GWNEWCH Y CYSYLLTIADAU,
CHWALWCH EICH BETH CADWYNI"
DYMA BOBL FYDD SLOGAN Y GYMRU NEWYDD,
DYMA YW'R FFORDD NEWYDD O FEDDWL, Y
FFORDD NEWYDD O FYW.

NID DYMA HANES, DADANSODDIAD O HANES
YW HWN, HANES YW HEDDIW, DDOE A BETH
DDIGWYDDITH YFORY,

"MAE POBL YN GWNEUD EU HANES
EU HUNAIN HEB YN WYBOD HYNNY"

DYW DIGWYDDIADDE'R GORFFENOL DDM
YN BODOLI JYST ER MWYN RHOI GWERS HANES-
YDDOL I NI HEDDIW, OND MAE GANDDOM NI
YR HAWL A'R DYLETSWYDD IW DADANSODDI
YN EIN FFORDD EIN HUNAIN.

"MAES Y GAD GWLEIDYDDOL YW HANES"
FEL DDYWEDODD JENK TOSH MAE HYN IW WELD
GYDA'R DADLEUON SYDD RHWNG Y LLYWODRAETH
AC HANESRWYR YNGLŶN Â CHYNNWYS Y GWERSI
HANES.MAE'R LLYWODRAETH AM GANOLBWyNTIO
AR HANES LLWYDDIANT A DIGWYDDIADAU
'PWYSIG' YN ENWEDIG O SAFBWyNT BRYDEINIG
A SEFYDLIADOL.TRWY FRWYDRO'N GALED A'N
GRAFF YN UNIG Y LLWYDDODD Y CYMRY I
ENNILL STATWS, PARCH A DADANSODDIAD SOD
O GWBL GYMREIG O'N HANES.

TRA EI ROD DIGWYDDIADAU'R GORFFENOL
DDIM GWELD A'I DADANSODD YN UNIG FEL
GWERSI HANES I NI YN Y PRESENNOL MAE
GALLU BOD YN DDIDDOROL, ER NID O REID-
R:YDD O 'WERTH'. WEDI DEUD HYN (IE YR
OND FAWR) MAE DADANSODDIAD HANESYDDIA-
ETHOL YN GALLU RHOI FERSPECTIF GWAHANOL
AR DDIGAYDDIADAU CYFOES. WRTH DDARLLEN
AM Y CHWYLDROADAU A FFRWYDRODD TRWY
EWROP YN 1848 AC YMATEB Y DOSBARTH
CANOL ARIANNOG AC HYDERUS YN YR HEN
YMERODRAETH AWSTRIA-HWNGARI AC YN
ENWEDIGYRHANNAU MWYA DATBLYGIEDIG YN
Y GORLLEWIN, ATGOFFIR NI O FRWYDR DROS
DDEDDF IAITH. WEDI I'R DOSBARTH CANOL
YN YR YMERODRAETH GAEL Y GOFYNION, SEF
Y BLEIDLAIS (I DDYNION YN UNIG) LLEIHAWYD
EU POTENSIAL A'I DYHEUADAU 'CHWYLDROADOL'.
A DDIGWYDDITH YR UN PETH I GARFAN SYLW-
EDDOL O GYMRY CYMRAEG WEDI INNI GAEL
DEDDF IAITH GYMRAEG NEWYDD A BYDD EU
GOFYNION IEITHYDDOL YN LLAWN? CAWN
WELD.

SEREN TAN GWMWL' YN YMRFER



T'BETH DYNA DDIGON O ATHRAWIAETHU
YMLAEN A'R FFANSIN, MAE'N 3.35a.m. AC
MAE ICWYN ANGEN EI BEAUTY..SLEEP.
MWYNHEWCH Y DARLLEN, SORI FOD DIM
MWY O LUNIAU, A GWETHREDWCH- Y BYD YW EICH
CIMWCH.

BOIS

BOS 576

GWYN A.
WILLIAMS.
'DWM' A.K.A.



ROBINA DND ROBINA ? 2

NID OEDD IAGO I (JANHSI, NEU VI O'R ALBAM) BYTH YN DOD LAWR O'I GEFFYL PAN OEDD
EISIAF GNAGIAD -AR DDIWEDD EATH HELA BYDDAI EI GORFF A'I GEFFYL YN BREWI YN
ECHRUS.

ROEDD GARIBALDI (RISORGIMENTO, UN O'R EIDAL, A.Y.B.) YN CYSGU MENN SEABL YN HYTRACH NA
GWELLY CAN DDEMYDDIO EI CYFRWY FEL GOBWRYDD. (MAE HANNA'N 'CY RYD Y FISCED')

ROEDD GAN JACK THE RIPPER GYSYLLTIADAU A'R TERLU BRENHINOL.

SORI BLANTOS, DOES DIM BYD BRUNT NA DIDDOROL AM HWN, OND MAE'R CAIR 'PENGWIN' YN
FARDDU O'R IAITH GYMRAEG, YN OL UN ARBENTIGWR AMERICANAIDD SYDD WEDI YSGHFFENNU
LLYER I BLANT AR Y CREADURIALD HYN!


YN YSTOD CHWYLDRO FERRAING CYFANNWYD Y 'GULLIGINE' FEL FFORDD 'WELLS' O
DDIENYDDIO POBL. PA FWYAF PWYSIG OEDDECH CHI, Y MWYA O YMDRECH A WNAI'R DIENYDDIWR
I DORRI EICH PEN I FWRDD MENN UN 'GO'!

DOEDD ADOLF HITLER DDIM YN HOFFI POBL YI SWYGU, OND ROEDD YN HOFFI GWN!

ROEDD YR HINDU'ID YN RHOI TYPYN O ANDER CA ED I'R MENTYOD YN EU BYRYD. UNWAITH
BYDDAI GWB YN MARI BYDDAI EI WRAG YN CABL EI LLOSGI A BYDDAI EI LAMCH YN CABL EI
DDEMYDDIO I FAN YHELONI'R TIR.

DYN DU OEDD MARTIN LUTHER KING!

ROEDD GAN ANNE BOLEYN, PISHYN BACH NAILL OCHR GERAINTE STANLEY JONES (HARRI VIII),
DADR TER.



ii NI 'DI GWNEUD 'COC-UP- DJM
ANDYGIADAU SORI FERKS!!

2



1831.....

"Y GWRTHRYFEL YM MERTHYR YN 1831 YW'R CYNNWRF MUYAF A DDIGWYDDODD ERICED YN Y BRYDAIN DDIWYDIANNOL." DYMA YW BARN JOHN 'DAVIES' YN EI LYFR HANES CYMRU.

Pam ddigwyddodd hyn, clywaf chi'n bloeddio. Wel, eisteddwch yn ôl yn gyfforddus, caewch y drysa u'n y cefn a gwrandewch yn astud. Cyfnod ansicr i'r gweithiwr haearn oedd y cyfnod post-rhyfeloedd Napoleonaidd (wedi 1815). Dilynwyd ffyniant gan gyfnod o ddirwasgiad gyda gweithwyr yn cael gwaith am gyfnod byr, ac yna yn cael eu diswyddo, pan fod galw'n lleihau. Ond y catalydd i'r gweithwyr i fynd a'r maen i'r wal oedd y galw cynyddol dros ddiwygio'r senedd. "Yn erbyn gwaradwydd ac anhegwch o bob math y gwrthryfelent; roedden nhw a m enill cydnabyddiaeth i'w gwerth, i'w statws ac i'w hurddas. Syniad oedd y tu cefn i'r gorymdeithio. Diwygio yn 1831, y Siarter yn 1839."

Dyma yw barn y dyn ei hun am ddigwyddiadau ym Merthyr, 1831. (Gwyn Alf Williams) Roedd Merthyr wedi cael ei ddisgrifio fel gwaeth lle na'r Black Hole of Calcutta. Ategai monopoli y cyflogwr dr os wariant y gweithiwr, - y Sistem 'Dryc' - at y problemau. Roedd Merthyr yn dwll o le i fyw ynddo. Bu farw dros 1000 o'r Cholera ym Merthyr yn 1849, ac yn ol duw (Gwyn Alf) roedd baban a aned yno yn ffodus i fyw trwy ei blentyndod.

mentro bywyd

Ym mis Mai 1831 cafwyd protestiadau enfawr dros ddiwygio'r senedd. Cododd y tymheredd gwleidyddol ac ym Merthyr aeth pobl ati i feddiannu eiddo oedd wedi cael ei gipio gan Gwrt y Deisyfion. Yn y cyfnod cyn hyn roedd William Crawshay (prif) gyflogwr Merthyr wedi datgan ei fwriad i ostwng cyflogau.



GHWYBODA'R FANER
GOCH AM Y TRŵ CYNTA!

Am saith diwrnod llwyddodd y gweithwyr i greu stâd o wrthryfel parhaol gan feiddiannu'r dre. Ond daeth yr haf bach. Mihangel yma i ben gyda milwyr troed o farics Aberhonddu (bw'hiss). Llofruddiwyd dros ugain o weithwyr ac anafwyd dwsinau mwy. Dyma'r lle cynta i'r f' aner goch gael ei chwifio pan drochwyd lliain wen mewn gwaed oen.

D.P. - "Arwr dros bawb"

Wedi'r storm daeth y ddedfryd. Cafodd Lewsyn yr Heliwr a Dic Penderyn eu dedfrydu i farwolaeth, ond yn lwcus i Lewsyn cafodd fywyd o garchar, ond fel sy'n wybodus i bob plentyn ysgol dedfrydwyd yr hen Ddic i gregi'n gorff yng Ngharchar Caerdydd. Yn ôl y son casglwyd deiseb o 20,000 i achub bywyd Dic Penderyn, rhif aruthrol o gofio cynlleied o addysg ffurfiol oedd yn bodoli yn y cyfnod. Ond dyma ddechrau merthyr cynta dosbarth gweithiol Cymru a dyma ddechrau ar myth a lapiwyd o'i gwmpas.

"Rwy'n mynd i ddiodef yn anghyfiawn. Mae Duw, sy'n gwybod popeth, yn gwybod hynny."


oedd geiriau ola Richard Lewis, 22 mlwydd oed. Ond bob mid yw'r stori'n gerff-en fynna, flynnyddoedd yn hwyrach cyfaddefodd hen foi o'r enw Ieual Parker a'i wely angau ym Mhensylvania i'r drosedd y cyhuddwyd Dic ohonni sef anafu milwr.

MARWOLAETH

"Dic Penderyn rwy'ti'n foi
be bues ti hyfed was
lawr ym Merthyr oeddw'n ddoe
o saith tan hanner nos

Pwy sy'n gweithio yn y pwll
a phwy sy'n yfed medd
Mae Cymry'n bwyta bara sych
ac mae'n dywyll fel y bedd"

Mae Cymru'n dal i fwyta bara sych,
ac mae'n dal yn dywyll fel y bedd, a than
gawn ni mwy o bobl fel Dic Penderyn, yno
fyddwn yn aros.



CWRS PRESWYL PENWYTHNOS
AR Y GREFFT O OSOD CERDD
DANT




"S.T.G." (3)

"YN FYW O'R MAES ..."

YR EISTEDDFOD — DDOE, HEDDIW A 'FORY!

S4C

Croeso i rifyn bwmpar-ddwbl - anferth - yr un r'ych chi wedi bod yn edrych ymlaen amdano - gai gopi o'r cyfansoddiadau tra dwi wrthi Derec - Dic sydd â'r gadair eleni - yn dydi'r tai bach yn wael ar y Maes Carafannau, Arwel - Steddfod 1990 o S.T.G. Bwriad y llith (cans yn yr Eisteddfod yr ydym) yw i edrych ar ychydig o hanes yr Eisteddfod, cael profi'r pethe (WV!! YV!! mae hwnna yn swnio'n frwnt), edrych ar yr Eisteddfod 'nawr a chynnig newidiadau ar gyfer EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ZENITH DATA SYSTEMS, 2000 (brought to you by S4C in conjunction with National Power)



HOLL HWYL YR WYL Cymru Ffal-di-Ral WÊLS!

Y 'TRADDODIAD'



• DIC - "Rwy eisieu eistedd yn y Gadair 'na' leni!"

Hen draddodiad yw'r 'steddfod sy'n ymestyn yn ôl i gyfnod yr Arglwydd Rhys pa n wahoddodd feirdd i gystadlu am gadair yn 1176 (er bod y traddodiad yn hŷn na hyn - roedd e hefyd yn dipyn o gi, ond stori arall yw honno) Wedi i Oes y Tywysogion ddod i ben (c.1282) gyda marw Llywelyn Ein Llyw Olaf parhaodd y traddodiad dan nawdd yr Uchelwyr gyda 'Steddfodau' yn parhau yng Nghaerfyrddin y 1451 a Caerwys y 1567. Ond gyda Seisnigo'r Uchelwyr yng Nghymru, gan gyflymu felly wedi Deddfau Uno 1536 a 1542 dirywiodd y traddodiadau hyn gan nad oedd nawdd i feirdd ferddoni. Dirywiodd i'r fath stad mai diwylliant tafarn oedd yr eisteddfod ertyn y 19c gyda'r cwrw'n llifo cymaint â'r awen ystradebol.

YSBRYD Y DERWYDDON



MISS WELSHI :
"GES I LWYFAN
AR Y CERDD DANT
A'R ALAW WERIN!"

O ymwybyddiaeth hanesyddol, tipyn o ladanum ac ysbryd yr oes ail ddyfeisiodd Iolo Morganwg y 'traddodiad' derwyddol ffug a'i seremoniau crand a ddaeth i'r amlwg gynta yn Eisteddfod Caerfyrddin a gynhaliwyd ie 'na ni mewn tafarn sef yr Ivy Bush neu'r 'royal' Ivy Bush fel mae hi nawr (gyda llaw y r hen arwydd am dafarn dy oedd deilen iorwg hence yr enw). O dipyn i beth tyfodd syniadau 'Mad Ned' i chwarae rhan mwy canolog yn yr eisteddfod fel ddaeth hi'n amhosibl gwanhania ethu un rhag y llall.

Plentyn ei oes oedd Iolo Morganwg hyd yn oed gyda Rhamantiaeth a Gweriniaeth-oldeb yn chwarae eu rhan y n ei syniadau. Plant ein hoes ydym i gyd gyda'n hoes yn ymdreiddio y n anymwybodol i'r syniadau a'n moesoldeb. Teimla STG na allwn fod yn 'luddites' fel plant ein hoes mae'n rhaid inni symud ymlaen, ys dywed yr hen news-reels yn y sinema, 'Time Marches On'. Awgrymwn felly rai newidiadau i ddod a'r 'Steddfod mewn 'cynghanedd' a meddylfryd yr 1990au.

PARHAD AR Y DUDALEN NESAF → MWY!

MAE ZENITH DATA SYSTEMS YN CYFLWYNO...
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2000.